# CA3 Cymraeg – Treiglad llaes

## Gweithgaredd 2

### Atebion

Mae'r llythrennau mewn print bras yn treiglo'n llaes.

1.
Mae ei **th**rwyn hi'n goch.
Mae'r llythyren t yn treiglo'n llaes ar ôl 'ei' benywaidd, t>th

2.
Cyflwynodd y blodau â **ch**ariad
Mae'r llythyren c yn treiglo'n llaes ar ôl 'â' sy'n golygu gyda *with* yn Saesneg, c>ch

3.
Mae tri **ph**lentyn ganddi.
Mae'r llythyren p yn treiglo'n llaes ar ôl y rhifolyn 3 / tri, p>ph

4.
Ci a **ch**ath.
Mae'r llythyren c yn treiglo'n llaes ar ôl y cysylltair 'a', c>ch

5.
Cwpanau a **ph**latiau.
Mae'r llythyren p yn treiglo'n llaes ar ôl y cysylltair 'a', p>ph

6.
Roedd mam y babi yn troi a **th**rosi drwy'r nos.
Mae'r llythyren t yn treiglo'n llaes, ar ôl y cysylltair 'a', t>th

7.
Eisteddodd chwe **ch**ant o bobl yn y theatr.
Mae'r llythyren c yn treiglo'n llaes ar ôl y rhifolyn 6 / chwe, c>ch

8.
Torrodd hi ei **ch**oes yn yr ardd.
Mae'r llythyren c yn treiglo'n llaes ar ôl 'ei' benywaidd, c > ch

9.
Rhaid cyrraedd yn ôl tua **ph**ump o'r gloch.
Mae'r llythyren p yn treiglo'n llaes ar ôl 'tua', p>ph

10.
Es i gyda **th**ri ffrind.
Mae'r llythyren 't' yn treiglo'n llaes ar ôl 'gyda', t>th


© BBC